**STD 03-01(4)**

**PWYLLGOR SAFONAU YMDDYGIAD**

**Dyddiad: Dydd Iau, 28 Mehefin 2001**

**Amser: 2:00pm**

**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol**

**Teitl: Buddiannau Anuniongyrchol**

**PAPUR DRAFFT I'R PWYLLGOR BUSNES – COFRESTRU A DATGAN BUDDIANNAU AELODAU**

**At: Aelodau'r Pwyllgor Busnes**

**Oddi wrth: Mr D Melding**

**Cadeirydd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad**

**Dyddiad: Mehefin 2001**

**Pwrpas**

1. Hysbysu'r Pwyllgor am gasgliadau arolwg y Pwyllgor Safonau Ymddygiad o'r drefn ar gyfer Cofrestru a Datgan Buddiannau Aelodau.

**Amserlen**

2. Fel rhan o'i waith arferol.

**Argymhelliad**

3. Bod y Pwyllgor yn nodi casgliadau'r Pwyllgor Safonau ac yn cytuno i gyflwyno'r newidiadau arfaethedig i Reol Sefydlog 4 a'r canllawiau ar Gofrestru a Datgan Buddiannau Aelodau ger bron y Cynulliad.

**Cefndir**

4. Yn gynharach eleni, cwblhaodd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad arolwg eang ei gwmpas o'r

Canllawiau ar Gofrestru a Datgan Buddiannau Aelodau. Gwelwyd anghysonderau o ran y drefn ar gyfer datgan a chofrestru "buddiannau anuniongyrchol" a phenderfynodd y Pwyllgor gynnal arolwg manylach o’r agwedd hon. Mae’r papur hwn yn rhestru casgliadau’r arolwg hwnnw, argymhellion y Pwyllgor a’u goblygiadau i ACau. Mae’r drefn bresennol ar gyfer cofrestru a datgan Buddiannau Uniongyrchol ac Anuniongyrchol i’w gweld yn Atodiad 1.

**Casgliadau’r Pwyllgor**

5. Mae yna orgyffwrdd rhwng y buddiannau a geir yn Atodiad Rheol Sefydlog 4 (y mae sancsiynau troseddol Adran 72 Deddf Llywodraeth Cymru 1998 yn berthnasol iddynt) a’r buddiannau a restrir ym Mhenderfyniad y Cynulliad a wnaed ar 19 Mai 1999 (nad oes sancsiynau iddynt).

6. Dylid adolygu Rheol Sefydlog 4 a system cofrestru a datgan buddiannau anuniongyrchol er mwyn iddi gynnwys y darpariaethau sy’n perthyn i’r categori "buddiannau anuniongyrchol" ar hyn o bryd. Byddai hynny’n eu gwneud yn fuddiannau uniongyrchol, gan wneud y term "buddiannau anuniongyrchol" yn ddiystyr.

7. Dylid ymestyn categorïau’r buddiannau yn Atodiad Rheol Sefydlog 4 i gynnwys buddiannau partner neu blentyn dibynnol, fel ag a wneir ym Mhenderfyniad 19 Mai y Cynulliad.

8. Mae gofyn bathu diffiniad manylach o’r termau ‘plentyn dibynnol’ a ‘phartner’ oherwydd y sancsiynau troseddol fyddai’n gysylltiedig â chofrestru a datgan eu buddiannau, pe penderfynid eu cynnwys yn Rheol Sefydlog 4.

**Y Cynigion**

Rheol Sefydlog 4

9. Dylid diwygio Rheol Sefydlog 4 fel a ganlyn:

- Diddymu paragraff 2 Penderfyniad 19 Mai 1999 y Cynulliad;
- Cynnwys diffiniad manwl o’r termau ‘partner’ a ‘phlentyn dibynnol’; ac
- Esbonio bod yn RHAID hefyd cofrestru buddiannau partner a phlentyn dibynnol.

Amgaeir copi o fersiwn ddiwygiedig ddrafft o Reol Sefydlog 4 yn Atodiad 4.

10. Ymestyn categorïau’r buddiannau cofrestradwy yn Atodiad Rheol Sefydlog 4 er mwyn cynnwys buddiannau partner a/neu blentyn dibynnol. Amgaeir copi o Atodiad diwygiedig drafft RhS4, ynghyd â’r darpariaethau newydd hyn, yn Atodiad 3.

**Y Canllawiau**

11. Bod y Canllawiau ar Gofrestru a Datgan Buddiannau Aelodau yn cael eu diwygio i adlewyrchu'r newidiadau yn 9 a 10 uchod. Amgaeir copi o'r canllawiau diwygiedig drafft yn Atodiad 4.

**Goblygiadau**

12. Bydd y newidiadau hyn i Reol Sefydlog 4 a'r Atodiad yn effeithio'n uniongyrchol ar y drefn cofrestru a datgan buddiannau. Bydd gofyn i aelodau gofrestru buddiannau partner a/neu blentyn dibynnol a'u datgan cyn cyfrannu at drafodaethau cyfarfod llawn ac ati. Byddai'r gofynion ychwanegol hyn o ran cofrestru a datgan yn tynhau'r rheolau i Aelodau ac i'r Cynulliad. Fe allai olygu y gall y bydd gofyn i ACau wneud mwy o gofrestriadau/datganiadau, a gallai effeithio ar hawl Aelod i bleidleisio ar faterion y Cynulliad.

**Casgliad**

13. Mae'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad o'r farn y gallai'r drefn bresennol ar gyfer cofrestru a datgan partneriaid a phlant beri dryswch. Byddai cysoni'r drefn yn ei gwneud yn fwy tryloyw ac yn haws ei rheoli. Byddai'r newidiadau yn esgor ar system gadarnach ar gyfer Cofrestru a Datgan Buddiannau, a byddai ACau a'r Cynulliad Cenedlaethol ei hun yn elwa o hynny.

**D Melding**

**Cadeirydd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad**

**Mehefin 2001**